# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Agenda SJR(2) –12-06(p7)

## Dyddiad: Dydd Iau 21 Medi 2006
## Amser: 9.30am – 12.30pm
## Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Teitl: Blaenoriaethau polisi a deddfwriaeth yr UE ar gyfer 2006

### Diben y Papur

1. Mae’r papur hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am y blaenoriaethau a ddewiswyd gan y Pwyllgor ar gyfer 2006 o Flaen-raglen Waith y Comisiwn.

### Cefndir

2. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, dewisodd y Pwyllgor y blaenoriaethau canlynol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod o Flaen-raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd:

### Hawliau’r Plentyn

Cyfathrebiad ar Hawliau’r Plentyn: bwriad hwn yw gosod fframwaith ar gyfer gweithredu hawliau plant yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

### Polisi Cyffuriau

Papur Gwyrdd ar gyffuriau a chymdeithas sifil: byddai hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithio â chymdeithas sifil i gymryd camau i roi Cynllun Gweithredu’r UE ar gyffuriau 2005-2008 ar waith. Awgrymwyd y Cynllun Gweithredu ar Gyffuriau fel un o’r blaenoriaethau ar gyfer ei drafod gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn 2005.

### Niwed yn sgil Alcohol

Cyfathrebiad y Comisiwn ar bolisi alcohol: y nod yw lleihau’r effeithiau a ddaw yn sgil yfed alcohol ar iechyd ac ar y gymdeithas.

### Gwasanaethau Post

Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb ar farchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau post. Byddai hyn yn hyrwyddo ymhellach greu marchnad fewnol i’r post (h.y. agor i gystadleuaeth y monopolïau post

sydd yn weddill) tua’r dyddiad targed sef 2009. Gallai hyn effeithio ar ardaloedd gwledig yn arbennig.

## Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor

3. Mae’r Atodiad sydd ynghlwm yn cynnwys manylion ymhellach ar y pynciau a nodwyd. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r papur a mynegi a ydynt am drafod unrhyw un o’r papurau a gyhoeddwyd. Bydd papur arall i’w nodi yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 6 Rhagfyr 2006.

**Janice Gregory AC – Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**